# PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 13 RHAGFYR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Williams(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Carter, Chowdhury, Henshaw, Hinchey, Hunt a/ac Thomson |

## 41 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sarah McGill ar gyfer eitem 4 a'r Cynghorydd Owen Jones am eitem 5.

## 42 : DATGAN BUDDIANNAU.

Datganodd y Cynghorydd Williams a'r Cynghorydd Henshaw fuddiant personol gan fod gan y ddau ohonynt aelodau o'r teulu'n gweithio i'r Cyngor.

## 43 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22/11/23 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 44 : PERFFORMIAD CANOL BLWYDDYN 2023/24

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau, fel y Pwyllgor Craffu â chyfrifoldeb dros oruchwylio trefniadau cynllunio corfforaethol, asesu perfformiad ac adrodd y Cyngor, fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt graffu cyn penderfynu ar Adroddiad Perfformiad Canol Blwyddyn hunanasesedig y Cyngor ar gyfer 2023/24.

Rôl allweddol y Pwyllgor yw ystyried a oes gan y Cyngor brosesau ar waith i fonitro perfformiad yn effeithiol ac a yw wedi asesu ei berfformiad yn ystod chwe mis cyntaf 2023/24 yn gywir. Fel cefndir, atgoffwyd yr Aelodau bod y Panel Craffu ar Berfformiad, is-bwyllgor o'r pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad (PRAP), yn cynnwys cadeiryddion y pum pwyllgor craffu, wedi ei gadeirio gan y Cynghorydd Joel Williams, yn cymryd rhan mewn trafodaeth anffurfiol gyda'r Cabinet ar berfformiad ar dair adeg allweddol yn y flwyddyn. Yn ddiweddar, roedd y Panel wedi cyfarfod yn anffurfiol i drafod y sefyllfa Canol Blwyddyn, ac fel rhan o'r papurau yn Atodiad B roedd Aelodau wedi derbyn rhestr o sylwadau a wnaed i'r Cabinet, ac ymateb y Cabinet i'r argymhellion hynny yn Atodiad C.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd,

- Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd
- Y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet, Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
- Paul Orders, Prif Weithredwr
- Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau
- Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau

- Dylan Owen, Pennaeth Swyddfa’r Cabinet

Gwahoddwyd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr i wneud datganiadau agoriadol ac ar ôl hynny cafodd yr Aelodau gyflwyniad.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Nododd yr Aelodau y pryderon a godwyd ynghylch heriau tai, gan gynnwys pobl sy'n cysgu allan, cyfraddau llog, a cheiswyr lloches. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd ymyrraeth gynnar wrth fynd i'r afael â'r argyfwng tai.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y gwelliant mewn ysgolion a gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch a yw hynny oherwydd arferion rheoli gwell. Roedd yr Aelodau'n meddwl tybed a ellid rhannu unrhyw beth a ddysgwyd o hyn gyda meysydd gwasanaeth eraill.

Mynegodd yr Aelodau bryderon am newidiadau yn y tîm rheoli addysg, effaith y pandemig ar iechyd meddwl ac ymddygiad mewn ysgolion, a'r angen am fwy o arloesi a strategaeth lles ar gyfer addysg.

Amlygodd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â phresenoldeb mewn ysgolion, rhieni’n gweithio gartref, ac addasrwydd strwythur y gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Canmolodd yr Aelodau waith Tîm Cynhwysiant y Cyngor a'r Tîm Iechyd a Diogelwch mewn ysgolion.

Trafododd yr Aelodau, yn helaeth, ddealltwriaeth y Cyngor o bwysau ar staff ac ymgysylltu â nhw. Argymhellwyd adolygiad o drefniadau ymgysylltu â staff i sicrhau darpariaeth gwasanaeth corfforaethol effeithiol.

Cydnabu Aelodau'r Pwyllgor yr heriau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a thynnu sylw at bwysigrwydd arloesi, trawsnewid ac ymyrraeth gynnar ar gyfer gwytnwch ariannol.

Croesawodd yr Aelodau ddull y Cyngor o asesu perfformiad drwy Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a nodwyd y defnydd o egwyddorion cynaliadwyedd wrth bennu Amcanion Lles.

Pwysleisiodd Aelodau'r Pwyllgor rôl pwyllgorau craffu wrth adolygu perfformiad, gan ganolbwyntio ar dynnu sylw at feysydd lle mae llithriad o ran perfformiad y Cynllun Corfforaethol. Nododd yr Aelodau fod adolygiadau tynnu sylw yn ddull cymeradwy y gellir ei gynnwys yn y gwaith o raglennu pwyllgorau craffu.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

45 : ADRODDIAD CRAFFU AR Y CYD CDLLN

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod ymchwiliad craffu ar y cyd gan y pum pwyllgor craffu wedi bod ar y gweill dros y misoedd diwethaf. Y nod yw llywio y *Strategaeth a Ffefrir*, a fyddai'n mynd i'r afael â lefelau tai, twf swyddi, strategaeth ofodol, trafnidiaeth gynaliadwy, diogelu'r amgylchedd a darparu datblygiad newydd o safon, a byddai pob un ohonynt yn llywio paratoi Cynllun Adneuo.

Roedd angen cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Cabinet i'w ystyried ym mis Ionawr 2024. I'r perwyl hwnnw, cyfarfu'r grŵp traws-bwyllgor ym mis Gorffennaf a chytunwyd mai'r dull gorau oedd blaenoriaethu tri phwnc y byddai is-grwpiau craffu llai yn eu harchwilio. Y tri phwnc â blaenoriaeth y cytunwyd arnynt oedd:

- Sicrhau Rhwymedigaethau Cynllunio/a106 - wedi ei gadeirio gan y Cynghorydd Joel Williams
- Trafnidiaeth - wedi ei gadeirio gan y Cynghorydd Owen Jones
- Canolfannau Lleol ac Ardal - wedi ei gadeirio gan y Cynghorydd Peter Wong

Roedd canfyddiadau'r 3 grŵp wedi'u cyfuno yn un adroddiad ymchwiliad craffu a thasg y Pwyllgor oedd cymeradwyo adroddiad yr Ymchwiliad Terfynol CDLIN arfaethedig ar y cyd a atodwyd yn Atodiad 1 ac awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ar ran y pum pwyllgor craffu.

Roedd llawer iawn o gasglu tystiolaeth wedi mynd i mewn i'r dasg hon, roedd y tri grŵp wedi siarad ag 20 o dystion allanol, 11 o dystion mewnol, ac wedi derbyn 6 chyflwyniad ysgrifenedig. Daeth yr adroddiad drafft terfynol yn Atodiad 1 â 133 o ganfyddiadau allweddol ynghyd a 17 o argymhellion i'r Cabinet.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Rhys Taylor fel Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion, y Cynghorydd Peter Wong ac Erica Painter (Prif Swyddog Craffu ar gyfer y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Owen Jones.

Gwahoddodd y Cadeirydd dystion i grynhoi eu canfyddiadau a'u hargymhellion, ac ar ôl hynny gwahoddwyd yr Aelodau i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

Trafododd yr Aelodau a gofyn cwestiynau’n ymwneud â 'materion niwed annerbyniol a sut y gellid mynd i'r afael â nhw. Nododd yr Aelodau mai canllawiau yn unig mewn Cyfraith Cynllunio yw CCA, ac y byddai datganiad o Fwriad Polisi yn y CDLIN yn ddefnyddiol rhag ofn y bydd apêl ac ati.

Trafododd yr Aelodau Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) gan nodi y gall Awdurdodau Lleol ddewis cymhwyso naill ai ASC neu gytundeb A106. Roedd yr ymchwiliad wedi clywed bod Caerdydd yn teimlo y byddai dewis ASC yn golygu y byddai llai o arian ar gael ar gyfer tai fforddiadwy oherwydd blaenoriaethau o fewn yr ASC, ond gydag a106, gall yr Awdurdod Lleol yn aml negodi cyfraniadau uwch y gellir eu defnyddio ar gyfer tai fforddiadwy. Nododd yr aelodau yr ymateb hwn ond teimlai y gall ASC yn aml ddarparu seilwaith gwell ar gyfer cymunedau cynaliadwy.

PENDERFYNWYD cytuno bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried ym mis Ionawr 2024.

46 : BUSNES Y PWYLLGOR

Nodwyd.

47 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

48 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10 Ionawr 2024, 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.17 pm